COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD MAWRTH, 7 MAI 2019

AELODAU

Y Cynghorydd M G Morris, Cadeirydd
* Y Cynghorydd Marc Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Bryan Apsley	Y Cynghorydd	John McCusker
"	I David Bithell, MBE	"	Beverley Parry-Jones
"	Michael Dixon	"	Paul Pemberton
"	Frank Hemmings	"	John Phillips
"	Adrienne Jeorrett	"	Ronnie Prince
"	Gwenfair Jones	"	John Pritchard
"	Paul Jones	"	Paul Roberts
"	David Maddocks	"	Graham Rogers
"	Tina Mannering	"	* Andy Williams

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Carrie Harper, R Alun Jenkins, Hugh Jones a Robert Walsh

68 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Marc Jones ac Andy Williams.

69 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd yr Aelodau am eu cyfrifoldeb dan Erthygl 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaed y datganiadau canlynol:

Eitem 4 ar y Rhaglen – Ceisiadau Rheoli Datblygu
Y Cynghorydd Adrienne Jeorrett – Cysylltiad Personol ac sy'n Rhagfarnu – Cais Rhif P/2019/0229 – gan ei bod yn adnabod y siaradwr drwy gyflogaeth.
Y Cynghorydd John Pritchard – Cysylltiad Personol ac sy'n Rhagfarnu – Cais Rhif P/2019/0220 a P/2019/0127 – gan ei fod yn Aelod o Gyngor Cymuned Sesswick.

Arhosodd y Cynghorwyr yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio wedi hynny.

Y Cynghorydd Paul Roberts – Cysylltiad Personol ac sy'n Rhagfarnu – Cais Rhif P/2019/0089 – gan fod cyfeiriad ei gartref wedi'i grybwyll yn ystod y drafodaeth. Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r bleidlais.

Eitem 5 ar y Rhaglen - Gorchymyn Diogelu Coed 289/2018 Ysgol Gynradd Gatholig St Anne, Ffordd y Tywysog Siarl, Wrecsam
Y Cynghorydd Ronnie Prince – Cysylltiad Personol ac sy'n Rhagfarnu – gan fod ei ferch yng nghyfraith yn gweithio yn yr ysgol a bod ei wyres yn ddisgybl yno.

Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio wedi hynny.

70 CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD - Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2019 fel cofnod cywir.

71 CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/10/19) i benderfynu ar y ceisiadau cynllunio rhestredig. Tynnwyd sylw at yr atodiad i'r adroddiad lle bo'n berthnasol.

72 CAIS RHIF: P/2016/0611 - SAFLE DATGYMALU CEIR AC IARD SGRAP LEGACY, FFORDD LLWYNEINION, LEGACY, WRECSAM

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at y wybodaeth o fewn yr Atodiad i'r Adroddiad, sef bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

PENDERFYNWYD – Nodi bod Cais Rhif P/2016/0611 wedi ei DYNNU'N ÔL.

73 CAIS RHIF: P/2018/0608 - BIG GREEN FARM, LÔN ELLESMERE, LLANNERCH BANNA, WRECSAM

Hysbyswyd yr Aelodau o gyflwyniad a wnaethpwyd gan yr ymgeisydd a oedd yn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan drigolion lleol mewn perthynas â lleoliad compownd yr adeiladwr. Cadarnhawyd bod y cynllun wedi newid ers y cyflwyniad gwreiddiol gydag ardal barcio i gefn y safle.

PENDERFYNWYD - CYMERADWYO'R Materion a Gadwyd yn Ôl fel y nodir yn adroddiad COPR/10/19.

74 CAIS RHIF: P/2018/0888 - BROAD OAK FARM, LÔN LLYNDIR, YR ORSEDD, WRECSAM

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif

Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodir yn adroddiad COPR/10/19, yn amodol ar y Cyngor yn ymrwymo i Rhwymedigaeth o dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref.

75 CAIS RHIF: P/2018/0934 - HORSE AND JOCKEY, STRYT Y CAPEL, PONCIAU, WRECSAM

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/10/19.

76 CAIS RHIF: P/2019/0051 - ROMNEY, ALLT MERFFORDD, MERFFORDD, WRECSAM.

PENDERFYNWYD -

(i) Y dylid anfon y cais at CADW am benderfyniad; ac

(ii) Ar ôl derbyn cadarnhad gan CADW nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig am ganiatâd adeilad rhestredig i ddymchwel tai allan a chodi garej newydd, dylid cymeradwyo'r cais yn amodol ar yr amodau a ganlyn:

AMOD(AU)
1. Dylid dechrau ar y gwaith y rhoddir caniatâd iddo drwy hyn cyn diwedd 5 mlynedd o ddyddiad y gymeradwyaeth.
2. Bydd y gwaith a ganiatawyd yn mynd rhagddo yn unol â'r manylion a ddangoswyd ar y darlun(iau) cymeradwy PL01 Rev A ac fel sydd wedi'u cynnwys o fewn dogfennaeth y cais.

77 CAS RHIF: P/2019/0084 - GEGIN FARM, FFORDD RHUTHUN, Y MWYNGLAWDD, WRECSAM

Siaradodd preswylydd yn erbyn y cais.
Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at rai pryderon a godwyd gan Aelod Lleol nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw. Roedd y rhain yn cynnwys darpariaethau parcio a symudiadau cerbydau staff.

Wrth roi ystyriaeth i'r cais, awgrymwyd, os oedd y Pwyllgor o blaid rhoi caniatâd, bod amod pellach yn cael ei gynnwys , sef y byddai llety yn cael ei ddarparu ar gyfer uchafswm o 4 plentyn er mwyn rheoli dwysáu defnydd mewn perthynas â pharcio ac amwynder preswyl cyfagos.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Prif

Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodir yn adroddiad COPR/10/19 yn ogystal â'r ychwanegiad canlynol:

Ychwanegu amod

4. Dylai'r caniatâd hwn ddarparu llety ar gyfer uchafswm o 4 plentyn.

Rheswm: I reoli dwysáu defnydd mewn perthynas â pharcio ac amwynder preswyl cyfagos.

78 CAIS RHIF: P/2019/0087 – YR HEN SWYDDFA BOST, REDBROOK VIEW, REDBROOK MAELOR, WHITCHURCH

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/10/19.

79 CAIS RHIF: P/2019/0089 – CANOLFAN ARDDIO FERNDALE, FFORDD Y BERS, CAEGO, WRECSAM

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng nghofnod 69 uchod)

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – GWRTHOD y cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/10/17.

80 CAIS RHIF: P/2019/0094 - 7 HEOL DINAS, WRECSAM

PENDERFYNWYD – GWRTHOD y cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/10/17.

81 CAIS RHIF: P/2019/0096 - 4 FFORDD SALEM, COEDPOETH, WRECSAM

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/10/19.

82 CAIS RHIF: P/2019/0127 - BLACK ROCK FARM, RHODFA SESSWICK, LÔN GROES, WRECSAM

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng nghofnod 69 uchod)

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/10/19.

83 CAIS RHIF: P/2019/0147 – TIR GER 1 ISLWYN, STRYT Y DOCTOR, RHOSLLANERCHRUGOG, WRECSAM

Siaradodd gwrthwynebydd yn erbyn y cais.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodir yn adroddiad COPR/10/19 yn ogystal â'r ychwanegiad canlynol:

Ychwanegu amod

10. Ni fydd unrhyw rwystr na cherbydau yn parcio ar hyd y ffordd sy'n darparu mynediad drwy'r safle i gefn eiddo masnachol ar Stryt Y Farchnad.

Rheswm: I atal unrhyw rwystr ac i ganiatáu i gerbydau gwasanaeth deithio yn rhwydd at gefn yr ardal wasanaeth sy'n gwasanaethu eiddo ar Stryt Y Farchnad.

84 CAIS RHIF: P/2019/0192 - 49 FFORDD Y CASTELL, COEDPOETH, WRECSAM

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/10/19.

85 CAIS RHIF: P/2019/0211 - 5 FFORDD ELWY, WRECSAM

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/10/19.

86 CAIS RHIF: P/2019/0220 - 1 CILGANT BEDWELL, LÔN GROES, WRECSAM

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng nghofnod 69 uchod)

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/10/19.

87 CAIS RHIF: P/2019/0229 – TIR AR HOME FARM, FFORDD GRESFFORDD, LLAI, WRECSAM

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng nghofnod 69 uchod)

Siaradodd gwrthwynebydd yn erbyn y cais.

Siaradodd yr Aelod Lleol (y Cynghorydd Rob Walsh) yn erbyn y cais, gan fynegi pryderon o ran lleoliad arfaethedig yr arwydd ac awgrymodd y dylai Aelodau fynychu ymweliad safle i weld yr ardal.

PENDERFYNWYD – Trefnu YMWELIAD SAFLE i Aelodau'r Pwyllgor weld safle'r cais cyn i'r Pwyllgor benderfynu ar y cais.

Rheswm dros yr Ymweliad: Ystyried effaith yr arwyddion arfaethedig ar ddiogelwch ar y priffyrdd ac amwynder gweledol ehangach yr ardal.

88 GORCHYMYN DIOGELU COED 289/2018 YSGOL GYNRADD GATHOLIG ST ANNE, FFORDD Y TYWYSOG SIARL, WRECSAM

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng nghofnod 69 uchod)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/16/19) i ystyried y sylwadau ysgrifenedig a wnaed mewn perthynas â'r Gorchymyn Diogelu Coed CBSW 289/2017 - Ysgol Gynradd Gatholig St Anne, Ffordd y Tywysog Siarl, Wrecsam, ac i benderfynu a ddylid cadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed a'i wneud yn barhaol gyda neu heb unrhyw addasiad neu beidio.

Siaradodd yr Aelod Lleol (y Cynghorydd Carrie Harper) yn erbyn cadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed, gan fynegi'r pryderon canlynol:

- Yr effaith ar y maes chwarae a system ddraenio'r ysgol.
- Roedd y difrod i wraidd y coed yn ddifrifol ac roedd hyn wedi arwain ar sawl damwain yn yr ysgol.
- Roedd y maes chwarae wedi gorlifo oherwydd problemau draenio a achoswyd gan wreiddiau'r coed.
- Cadarnhad y byddai'r Ysgol yn plannu coed newydd mewn lleoliad priodol pe na bai'r Gorchymyn Diogelu Coed yn cael ei gymeradwyo ac y byddai'n rhaid tynnu'r coed.

PENDERFYNWYD -

(i) Cadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed 289/2018 'Ysgol Gynradd Gatholig St Anne, Ffordd y Tywysog Siarl, Wrecsam' heb unrhyw addasiad.

(ii) Cyflwyno adroddiad pellach mewn Cyfarfod dilynol ar y cynnydd a wnaethpwyd, ac estyn gwahoddiad i'r Adran berthnasol.

89 GORCHYMYN DIOGELU COED 286/2018 TIR I'R DE O SAFLE NEUADD LLANNERCH BANNA, LLANNERCH BANNA, WRECSAM

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/17/19) i ystyried y sylwadau ysgrifenedig a wnaed mewn perthynas â'r Gorchymyn Diogelu Coed CBSW 286/2018 – "Tir i'r De o Safle Neuadd Llannerch Banna, Llannerch Banna, Wrecsam" ac i benderfynu a ddylid cadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed a'i wneud yn barhaol gyda neu heb unrhyw addasiad neu beidio.

Siaradodd yr Aelod Lleol o blaid argymhelliad y Swyddog i gadarnhau'r addasiad.

PENDERFYNWYD - Cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed 286/2018 'Tir i'r De o Safle Neuadd Llannerch Banna, Llannerch Banna, Wrecsam' heb ei addasu.

Y Cynghorydd M G Morris
Cadeirydd